

# Effaith Ymchwil

2016/17 Adroddiad Blynyddol  
Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Cynnwys



- 5 Rhagair
- 6 Cyflwyniad
- 8 Yn ariannu ymchwil o ansawdd uchel
- 18 Yn cydweithio i agor cyfleoedd
- 20 Yn ariannu ymchwil sy'n cael cryn effaith
- 25 Yn cefnogi ac yn cyflenwi ymchwil
- 30 Yn cynnwys y cyhoedd
- 32 Doeth Am Iechyd Cymru
- 34 Yn symud gofal cymdeithasol ymlaen
- 36 Yn edrych ymlaen









“

**Wrth wraidd popeth a wnawn  
mae ein hymrwymiad i wella  
iechyd, llesiant a ffyniant y  
bobl yng Nghymru.**

”



# Rhagair

**Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi mwynhau blwyddyn llwyddiannus iawn arall. Bu llawer o gyflawniadau rhagorol, a disgrifir nifer o'r rhain yn yr adroddiad blynyddol hwn gan bwysleisio ansawdd ac amrywiaeth ein gwaith.**

**Y**n sgil lansio Cynllun Strategol pum mlynedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn 2015, bu'n bleser gweld dechrau ei roi ar waith. Un enghraifft allweddol o hyn yw'r cynnydd a wnaed wrth sicrhau bod cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru nawr wedi hen ymsefydlu a bu Cymru'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu Safonau DU eang ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae Doeth Am Iechyd Cymru, sef ein menter ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol flaenllaw, yn agosach at gyflawni ei photensial llawn wrth i ni barhau â'n gwaith i gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu recriwtio a gwella ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.

Wrth wraidd popeth a wnawn mae ein hymrwymiad i wella iechyd, llesiant a ffyniant y bobl yng Nghymru. Rydyn ni wedi gweithio'n galed i gynyddu effaith ein hymchwil ac i sicrhau y defnyddir gwybodaeth i ddatblygu gwasanaethau mwy effeithiol. Mae pob un o'n Canolfannau, Unedau, Unedau Treialon Clinigol a Grwpiau Cymorth Seilwaith wedi cynhyrchu fersiynau terfynol o'u cynlluniau strategol i sicrhau bod ymchwil yn cael effaith, ac mae'r rhain bellach wedi'u rhoi ar waith. Rydyn ni hefyd wedi hyrwyddo ymchwil a datblygu fel ysgogwr allweddol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel trwy sicrhau bod hyn yn rhan o gynlluniau tymor canolig sefydliadau'r GIG a chynlluniau cyflawni GIG Cymru ar gyfer cyflyrau penodol.

Un enghraifft ragorol o gynnydd mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd anterth gwaith sylweddol i sicrhau bod ymchwil yn rhan annatod o sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae model cryf, cydweithredol o weithio'n golygu y bydd ymchwil gofal cymdeithasol yn rhoi sylw i gwestiynau allweddol ynglŷn â gwasanaethau ac yn sicrhau y caiff y wybodaeth sydd ar gael ei defnyddio i ddarparu sail ar gyfer gwaith gwella. Mae Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru, a lanswyd yn llwyddiannus dros ben ar Ddydd Gŵyl Sain Ffolant, bellach yn gweithio'n agos â Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu a chyflawni strategaeth ymchwil gofal cymdeithasol i Gymru.

Cyflawniad mawr arall eleni oedd cwblhau'r camau nesaf yn y gwaith o drawsnewid y gwasanaeth cefnogi a chyflenwi. Mae ymrwymiad y staff i gyflawni'r newidiadau a oedd yn ofynnol i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon ac effeithiol fyth wedi bod yn glir i'w weld. Mae mwy o bobl wedi'u recriwtio i astudiaethau, ac mae newidiadau i'n polisi ariannu seiliedig ar weithgareddau cenedlaethol yn annog ffocws ar gefnogi a chyflenwi ymchwil o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynyddu cyfleoedd i boblogaeth Cymru gymryd rhan mewn astudiaethau a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

Yn olaf, fe hoffwn i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i gymuned Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru am eu gwaith caled yn ystod 2016 – 17 ac rydw i'n edrych ymlaen at gynnydd parhaus mewn blynyddoedd i ddod.



---

## Yr Athro Jon Bisson

Cyfarwyddwr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

# Cyflwyniad

**S**efydliad cenedlaethol yw Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, â chyfansoddiad sy'n gyfuniad o seilwaith ymchwil a chynlluniau ariannu. Llywodraeth Cymru sy'n ein hariannu ac yn ein goruchwylio trwy ei His-adran Ymchwil a Datblygu (Y&D). Rydyn ni'n cefnogi ac yn cynyddu gallu ym maes Y&D, yn rhedeg amrywiaeth o gynlluniau ariannu ymatebol ac yn rheoli adnoddau i hybu, cefnogi a chyflenwi ymchwil. Rydyn ni'n cefnogi ymchwil drosiadol, gyda ffocws penodol ar ymchwil gymhwysol ac iechyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i atal, datgelu a gwneud diagnosis o glefyd; datblygu a gwerthuso ymyriadau;

darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; a rhoi darganfyddiadau ymchwil ar waith.

Rydyn ni hefyd yn cefnogi datblygu partneriaethau cryf ag unigolion a sefydliadau allweddol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, er enghraifft trwy ein haelodaeth o Fwrdd y Swyddfa Cydlyn Strategol Ymchwil i Iechyd (OSCHR). Mae pobl Cymru'n ganolog i'n seilwaith, gyda rhaglenni sydd â'r nod o arwain at fuddion mawr o ran iechyd a llesiant, effeithiolrwydd gwasanaethau a chynhyrchu cyfoeth. Un amcan allweddol yw sicrhau bod ymchwil y mae Llywodraeth Cymru'n ei hariannu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

wedi'i halinio â pholisi Llywodraeth Cymru, a'i bod yn cael gwir effaith.


Mae fframwaith rheoli perfformiad cadarn, a dangosyddion sy'n rhoi sylw i fudd y cyhoedd, ymwybyddiaeth o ymchwil, effaith ymchwil ac effaith economaidd wrth wraidd Cynllun Strategol 2015-2020 Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n monitro ac yn rheoli perfformiad, gyda chyfraniad o du Byrddau Cyflawni Y&D Gofal Cymdeithasol, y GIG a Chynnwys y Cyhoedd, sy'n bwydo i Fwrdd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

## Nodau Strategol

Ein gweledigaeth yw i Gymru gael ei chydabod yn rhyngwladol am ei hymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ragorol sy'n cael effaith bositif ar iechyd, llesiant a ffyniant y bobl yng Nghymru.



- 1** Sicrhau bod cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydyn ni'n ei wneud a bod hyn i'w weld ym mhob elfen ohono.
- 2** Sicrhau bod ein gwaith wedi'i alinio â pholisi Llywodraeth Cymru a'i fod yn cael gwir effaith.
- 3** Integreiddio ein seilwaith a'n rhaglenni'n llawn ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- 4** Buddsoddi mewn meysydd y mae Cymru'n rhagori ac yn unigryw ynddyn nhw.
- 5** Cynyddu gallu ym maes ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- 6** Datblygu systemau sy'n sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu mewn modd rhagorol ac yn defnyddio adnoddau i'r eithaf.



# Yn ariannu ymchwil o ansawdd uchel

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n datblygu ymchwil o ansawdd uchel trwy ganolfannau ac unedau ymchwil, unedau treialon clinigol, a grwpiau cymorth.

Mae'r canolfannau a'r unedau'n rhoi sylw i amrywiaeth o ymchwil, gan gynnwys iechyd meddwl, gofal sylfaenol a gofal heb ei drefnu, iechyd a llesiant y boblogaeth, cancer, heneiddio a dementia, clefydau niwroddirwyiol, diabetes, yr arenau a gofal cymdeithasol. Eu nod yw cynyddu nifer yr astudiaethau ymchwil o ansawdd uchel a gynhelir yng Nghymru, meithrin gallu ym maes ymchwil a gweithio gyda'r GIG a phartneriaid gofal cymdeithasol i sicrhau bod darganfyddiadau ymchwil yn cael eu trosi'n fuddion ystyrlon i gleifion. Maen nhw hefyd yn cynyddu'r incwm sy'n dod i mewn i Gymru trwy sicrhau cyllid grantiau allanol a chyhoeddi eu gwaith mewn

cyfnodolion gwyddonol o ansawdd uchel. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau sy'n cael eu hariannu yn y map seilwaith (*tudalen 7*).


Mae'r grwpiau cymorth seilwaith yn darparu gwybodaeth arbenigol o ran technegau cysylltu data, geneteg a genomeg ac economeg iechyd. Mae ein hunedau treialon clinigol yn darparu gwybodaeth arbenigol ym maes treialon clinigol ac astudiaethau eraill da eu cynllun. Mae hyn yn hanfodol wrth sicrhau eu bod nhw o ansawdd uchel a hefyd wrth sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynnal mewn modd amserol a'u bod nhw'n bodloni gofynion rheoleiddio a llywodraethu.



Ymchwil Iechyd  
a Gofal Cymru  
Health and Care  
Research Wales

Seilwaith Ymchwil  
Glinigol 2015-17

Nifer y samplau o  
feinweoedd a ryddhawyd



14,318

Nifer y cyhoeddiadau  
ymchwil



1,597

Nifer y grantiau a ddyfarnwyd

#  
373

Gwerth y grantiau a ddyfarnwyd

£  
95m

Nifer y swyddi  
(cyllid craidd)

160

Nifer y swyddi  
(cyllid grantiau)

433

# Golwg ar...

Ceir disgrifiad o rywfaifant o'r gwaith o ddwy o'n canolfannau a dwy o'n hunedau ar y tudalennau a ganlyn, i roi enghreifftiau o'r ymchwil o ansawdd uchel ac i ddangos ei heffaith bositif ar bobl a gwasanaethau.



**Mae Canolfan PRIME Cymru'n cynnal ymchwil i ofal sylfaenol a gofal brys. Mae'r rhain yn feysydd hanfodol ar gyfer ymchwil, gan fod 90% o bob cyswllt â chleifion yn digwydd yma. Mae sail academiaidd gref, gyda darparwyr gofal sylfaenol a gofal brys yn cydweithio, yn hanfodol.**

Mae PRIME wedi cefnogi mentrau cydweithio newydd sydd wedi helpu i datblygu ymchwil newydd a gwerthfawr ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyllid PRIME wedi galluogi ymchwilwyr i ddatblygu ceisiadau llwyddiannus am grantiau ar draws prifysgolion ac unedau ymchwil. Mae PRIME hefyd wedi llwyddo i ennill cyllid sylweddol ar gyfer ymchwil o raglenni'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR), y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n bartner ariannu iddo.

Er bod ffocws prosiectau PRIME yn amrywio, mae gan bob un nod i gefnogi gwaith gofalu a rheoli cleifion yn effeithiol ym maes gofal sylfaenol. Mae ganddyn nhw hefyd nod o ddatblygu ymchwilwyr ar ddechrau neu yng nghanol eu gyrfa i ddod yn arweinwyr ymchwil.

### **Astudiaeth Achos**

*Teitl yr astudiaeth: Rheoli symptomau'r llwybr troethol isaf mewn dynion, ym maes gofal sylfaenol: datblygu a dilysu cymhorthyn i helpu i wneud diagnosis a phenderfyniadau (Astudiaeth PRIMUS)*

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd (HTA) y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR)

**Swm:** £1,555,527

Mae ymchwilwyr PRIME yn gweithio gyda chydweithwyr yn Uned Treialon De-ddwyrain Cymru (SEWTU) ar yr astudiaeth hon sydd â'r nod o ddatblygu cymhorthyn penderfynu clinigol i wneud diagnosis o beth sy'n achosi symptomau'r llwybr troethol isaf mewn dynion, ac i wneud argymhellion.

Mae symptomau'n effeithio ar fwy na 10% o ddynion hŷn ac mae'n rheswm cyffredin dros ymweld â'u meddyg teulu. Er bod meddygon teulu'n dilyn gweithdrefnau sefydledig wrth ystyried arwyddion cyflyrau mwy difrifol fel canser, nid oes yna unrhyw offer asesu sydd ar gael yn rhydd i nodi pethau mwy cyffredin sy'n achosi symptomau'r llwybr troethol isaf. Mae'n golygu bod cleifion yn cael eu hatgyfeirio'n fwyfwy at arbenigwyr wroleg mewn ysbytai am brofion a diagnosis (mae cyfraddau atgyfeirio wedi treblu mewn blynyddoedd diweddar).

Os gwelir bod y cymhorthyn penderfynu clinigol yn effeithiol, mae'n bosibl y bydd yn helpu i sicrhau bod cynlluniau triniaeth ar gael yn gynnar i ddynion â symptomau. Gallai'r cymhorthyn penderfynu hefyd gwtogi ar amseroedd aros cyn cael asesiad a diagnosis, lleihau'r pwysau ar ofal eilaidd a chaniatáu atgyfeirio dynion â phroblemau mwy cymhleth yn gynt at wasanaethau wroleg arbenigol.



**Mae Canolfan PRIME Cymru'n mynd o nerth i nerth. Mae'n darparu cyllid seilwaith hynod werthfawr a hanfodol ar gyfer ymchwil ym maes gofal sylfaenol a gofal brys. Mae mwy na 90% o'r cysylltiadau â chleifion yn digwydd yn y sector hwn, ond hyd yma dim ond 7% o gleifion ymchwil sy'n cael eu recriwtio o'r sector, felly mae angen i ni feithrin gallu a phŵer ar gyfer ymchwil yn fwy helaeth yn y sector hwn er mwyn adeiladu'r sail tystiolaeth ar gyfer gofal iechyd diogel, o ansawdd uchel.**

**Yr Athro Adrian Edwards,**  
Cyfarwyddwr, Canolfan PRIME Cymru



### Astudiaeth Achos

**Teitl yr astudiaeth:** Gofalwyr yn rhoi meddyginiaeth o dan y croen yn ôl y galw ar gyfer symptomau sy'n dod i'r amlwg mewn cleifion sy'n marw gartref (CARer-Administration): astudiaeth y DU (CARiAD)

**Ariannwr:** Rhaglen Asesu Technoleg Iechyd (HTA) y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR)

**Swm:** £490,856

Mae ymchwilwyr PRIME sy'n arbenigo mewn ymarfer cyffredinol a meddyginiaeth liniarol yn gweithio gyda chydweithwyr o Ganolfan Ymchwil Canser Cymru i ymchwilio i sut y gellir cefnogi teuluoedd cleifion sy'n marw i ofalu am eu perthnasau gartref yn ystod wythnosau neu ddyddiau olaf eu hoes. Mae'r tîm yn rhoi model gofal o Awstralia ar brawf, lle mae perthnasau'n cael eu hyfforddi i roi meddyginiaeth yn ddiogel trwy bigiad, er mwyn lliniaru symptomau fel poen, aflonyddwch, cyfog ac anadlu swnllyd. Fel rheol, nyrs ardal sy'n rhoi'r pigiadau hyn. Mae'r amser y mae'n cymryd i ofyn i'r nyrs ddod allan, ac yna i aros, yn gallu achosi trallod i gleifion a'u gofalwyr gan fod y symptomau'n gallu gwaethygu erbyn y mae'r nyrs yn cyrraedd. Nod yr astudiaeth yw darganfod a yw'r model gofal hwn yn effeithiol wrth rymuso gofalwyr a lleihau trallod i gleifion sydd eisiau derbyn gofal a marw gartref.

“

**Nod y prosiect hwn yw grymuso gofalwyr i estyn eu rôl wrth ofalu am rywun sy'n marw gartref.**

**Mae ein mentrau cydweithredol ledled Cymru ac ar draws disgyblaethau'n allweddol i wybod a yw'r ymarfer hwn yn dderbyniol ac yn ddichonol yn y DU. Mae'r prosiect hwn yn ffurfio sail i PhD Dr Marlise Poolman, ac mae'n rhoi hwb mawr i'w gyrfa fel academydd clinigol.**

Yr Athro Clare Wilkinson,  
Arweinydd yr astudiaeth, Prifysgol Bangor

Sefydlwyd CADR i integreiddio ymchwil o'r radd flaenaf i heneiddio a dementia sy'n mynd rhagddi yng Nghymru, ac i ddatblygu meysydd arbenigedd yn amrywio o feysydd biolegol, seicogymdeithasol ac amgylcheddol i bolisi cymdeithasol. Mae ganddo nod penodol o wella bywydau pobl hŷn trwy gyfuno polisi ac arfer ymchwil.

Mae CADR wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth osod ymchwil i heneiddio wrth graidd yr agenda ymchwil. Bu'n cydweithio i gefnogi ymchwilwyr i gipio grantiau sylweddol ar gyfer Cymru, gan gynnwys grantiau oddi wrth y cyngorau ymchwil a phrif arianwyr elusennol.

## Astudiaeth Achos

**Teitl yr astudiaeth:** Sefydliad Ymchwil Dementia, Prifysgol Caerdydd  
**Ariannwr:** Y Cyngor Ymchwil Feddygol, Cymdeithas Alzheimer ac Ymchwil Alzheimer y DU  
**Swm:** £13m

Mae CADR yn dod ag ymholiadau biolegol, cymdeithasol a seiliedig ar y celfyddydau o ran heneiddio a gerontoleg ynghyd. Fe fydd y Sefydliad Ymchwil Dementia'n ceisio deall y pethau sy'n achosi clefyd Alzheimer yn ogystal â chlefyd Parkinson a chlefyd Huntington. Mae'r ymchwil hon yn helpu i ddatblygu therapïau newydd sydd wedi'u cynllunio i arafu cynnydd y clefyd, lleihau'r risg o dementia a gwella ansawdd bywyd i unigolion â dementia.

Fe fydd CADR yn parhau i weithio'n agos â'r Sefydliad, gan edrych ar gyfraniadau perthnasol ffactorau biolegol, cymdeithasol ac amgylcheddol at dementia.

“

**Mae CADR yn siapio brîd newydd o ymchwilwyr rhyngddisgyblaethol â gweledigaethau newydd ar gyfer heriau gwyddonol yn y dyfodol. Hefyd, trwy ddod â'n cymuned wyddonol rhyngddisgyblaethol ynghyd â rhanddeiliaid a defnyddwyr ymchwil, rydyn ni'n cael effaith fawr.**

Yr Athro Vanessa Burholt, Cyfarwyddwr, CADR

## Astudiaeth Achos

**Teitl yr astudiaeth:** Herio Amgylcheddau Dynol ac Effaith Ymchwil i gael Economi Ddigidol Gynaliadwy ac Iach (CHERISH-DE)  
**Ariannwr:** Y Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC)  
**Swm:** £3,091,610 (cyfanswm cyllid o £8m)



Mae Canolfan CHERISH-DE ym Mhrifysgol Abertawe'n edrych ar sut y gellid gwella bywydau pobl trwy dechnolegau digidol. Mae CADR yn gweithio gyda CHERISH-DE mewn tair prif ffordd:

- Mae Charles Musselwhite, Athro Cyswllt Gerontoleg ym Mhrifysgol Abertawe, yn gweithio gydag is-adran trafndiaeth Llywodraeth Cymru i helpu i flaenoriaethu meysydd ymchwil sy'n berthnasol i boblogaeth sy'n heneiddio ac i broblemau sy'n wynebu'r boblogaeth honno o ran trafndiaeth a symudedd.
- Ymchwilio i sut y gallai technoleg ddod â buddion yr awyr agored i iechyd meddwl a iechyd corfforol y rheini sy'n gaeth i'w tŷ, boed yn barhaol neu dros dro.
- Trwy brosiect sy'n edrych ar ddefnyddio technoleg i gipio storïau pobl am eu cysylltiadau â lleoedd i gefnogi gwaith adfywio ardaloedd diwydiannol gynt Cymru.

# Clefyd diabetig yr arennau

## Yr angen am ymchwil

Yn ôl amcangyfrifon data diweddar, mae bron **180,000** o bobl yng Nghymru'n byw â diabetes, sef ffigur a fydd yn debygol o **gynyddu i 300,000** erbyn 2025.



Ar hyn o bryd, mae diabetes yn costio **£500 miliwn y flwyddyn** – 10% o gyllideb flynyddol GIG Cymru – ac mae **80%** o'r cyllid hwn yn mynd tuag at reoli cymhlethdodau.



## Uned Ymchwil Arennol Cymru (WKRU)

**Mae bron hanner miliwn o bobl yng Nghymru'n dioddef o glefyd yr arenau, ac mae arenau mwy nag 1 ym mhob 10 o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty'n methu fel rhan o'u salwch. Mae'r rheini sydd â difrod i'w harenau'n aros, ar gyfartaledd, cymaint ddwywaith yn hirach yn yr ysbyty, ac mae ganddyn nhw ddwbl y risg o farw tra'u bod yn yr ysbyty. Yn yr Uned, mae ymchwilwyr ledled Cymru'n cydweithio â chlinigwyr a chleifion i ddeall a gwella gwaith nodi, atal a thrin clefyd yr arenau, ac i ddeall y cyd-destun cymdeithasol.**

### Heintiau: Nodi beth sy'n eu hachosi

Mae heintiau'n broblem gyffredin i bobl â chlefyd yr arenau. Y ffordd arferol o nodi beth sy'n eu hachosi yw cymryd samplau a cheisio tyfu'r llucheden oddi wrthyn nhw. Mae hyn yn aml yn arwain at driniaeth â gwrthfotigau, sy'n bell o fod y driniaeth orau ac sy'n cyfrannu at ganlyniadau gwael i gleifion â heintiau a hefyd at ymwrthedd i wrthfotigau, sy'n broblem fawr fyd-eang i ofal iechyd.

I'n helpu ni yn hyn o beth, mae ymchwilydd WKRU, Dr Eberl, wedi datblygu'r cysyniad o gofnodi olion bysedd imiwnedd, gyda chymorth NIHR, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y Cyngor Ymchwil Feddygol, Ymchwil yr Arennau'r DU a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae hyn yn golygu defnyddio ein dealltwriaeth gynyddol o'r ôl bys imiwnedd unigryw y mae gwahanol lucedennau'n eu gadael yn safle'r haint, i'w nodi a chyfeirio triniaeth yn ddi-oed. Gan weithio gyda

Dr Eberl, mae'r partner diwydiannol, Mologic, wedi gallu datblygu prototeip prawf diagnostig newydd ar gyfer cleifion yr arenau sy'n derbyn Dialysis Peritoneol, ac mae hwn nawr yn cael ei roi ar brawf yn helaeth ledled y DU. Mae Dr Eberl yn parhau i ddarganfod cyfuniadau o fioddangosyddion imiwnedd ym maes dialysis peritoneal a hefyd hemodialysis, yn ogystal ag mewn unigolion â heintiau'r llwybr troethol a allai achosi niwed i'r aren. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â Siemens Healthcare ar eu plattform Immulite.

### Clefyd diabetig yr arenau

Mae clefyd diabetig yr arenau'n un o gymhlethdodau mwyaf cyffredin a mwyaf difrifol diabetes (*gweler y diagram, tudalen 16*). Yn ei sgil daw risg fawr o farw cyn pryd ac o anabledd, ac mae'n galw am driniaeth sy'n cynnal bywyd ond sy'n ddrud ac yn feichus, ar ffurf dialysis neu drawsblannu'r arenau. Dan arweiniad Dr Bowen a'r Athro Fraser, bu ymchwilwyr WKRU yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau yn Ne Cymru, sef BBI Group, Gwent Electronics Ltd, GX Design ac UCB Pharma. Mae'r gwaith cydweithredol hwn wedi arloesi â dulliau newydd o ganfod microRNAs (rheolyddion moleciwlaidd sydd wedi'u darganfod yn ddiweddar yn y corff drwyddo draw) yn y troeth, fel ffordd newydd o nodi a monitro pobl â chlefyd diabetig a chlefydau eraill yr arenau. Mae'r ymchwil hon, y mae nifer o gyrrf ymchwil yn cynnwys Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n ei hariannu, wedi arwain yn ddiweddar at y grŵp yn ffeilio cais am batent rhyngwladol ar gyfer prawf diagnostig seiliedig ar ficroRNA y troeth ar gyfer clefyd diabetig yr arenau.


### Cleifion: Wrth galon gwaith cynllunio a chyflenwi ymchwil

Mae cleifion o ledled y wlad yn cael y cyfle i ddatblygu gwell dirnadaeth o sut y mae ymchwil yn gallu effeithio ar ystod fawr o dechnegau diagnosio, monitro a rheoli yn ogystal ag arwain at welliannau mawr mewn therapiau adfer. Maen nhw hefyd yn bartneriaid allweddol yn agenda ymchwil WKRU – nid yn unig trwy gymryd rhan yn yr astudiaethau ond hefyd trwy benderfynu ar yr agenda a chymryd rhan mewn gwaith cynllunio astudiaethau ymchwil.

“Pan roeddwn i'n bump oed ym 1960, cefais y profiad trawmatig o golli fy nhad i glefyd yr arenau a oedd heb ei ddiagnosio ac felly heb ei drin, ag yntau ddim ond yn 37 mlwydd oed. Nawr fy mod i'n 62 mlwydd oed, mae fy mhrofiad fy hun o f'arennau'n methu'n dangos gwrthgyferbyniad llwyr, ac rydw i'n gallu disgrifio stori o driniaeth lwyddiannus a dweud fy mod wedi goroesi. Mae hi'n anrhydedd ac yn fraint bod â chysylltiad ag Uned Ymchwil Arennol Cymru. Mae mentrau i wella a chynyddu'r rhan y mae cleifion yn ei chwarae mewn ymchwil, sef dull o weithredu y mae'r Uned wedi'i fabwysiadu o'r cychwyn cyntaf, o fudd i gleifion ac ymchwilwyr fel ei gilydd. Mae cymryd rhan yn helpu cleifion i ddod i ddeall pa mor berthnasol ydy'r gwaith, a deall sut mae'n cael ei wneud, ac mae hyn yn gallu gwella cydymffurfiaeth o ran triniaeth. Heb gynnwys cleifion, mae'n gallu edrych fel pe bai ymchwil yn rhywbeth anhygyrch iawn.

Janet Williams, Claf yr arenau ac aelod o fwrdd WKRU





“

**Ar ôl datblygu sylfeini cryf ers y dechrau yn 2015, mae hwn yn amser cyffrous i Uned BRAIN. Gyda chymorth hynod werthfawr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i dyfu wrth i ni ymsefydlu fel canolfan ragoriaeth o bwys o fewn meysydd academiaidd, clinigol a diwydiannol niwrowyddoniaeth.**

”

**Y Athro William Gray, Cyfarwyddwr Uned BRAIN**



**Mae BRAIN yn cynnal ymchwil i ddatblygu therapïau newydd ar gyfer clefydau'r ymennydd. Mae'r Uned yn dod ag arbenigwyr academiaidd, clinigwyr, cleifion a chydweithwyr yn GIG Cymru a'r byd diwydiannol at ei gilydd er budd pobl â chlefydau fel epilepsi, clefyd Huntington, clefyd Parkinson a sglerosis ymledol.**

## Meithrin perthnasoedd cryf

Mae llwyddiant yr Uned wrth sefydlu partneriaethau cryf yn galluogi'r tîm i ddiwallu angen sydd heb ei ateb am arloesi â therapïau yng Nghymru, ac ar yr un pryd trosi ymchwil o'r labordy i erchwyn gwely'r claf yn effeithiol ac yn ddiogel.

Mae rhodd elusennol oddi wrth Sefydliad Oakgrove, gyda chymorth technegol cwmni technoleg Renishaw, yn darparu niwro-robot i gynorthwyo â llawdriniaethau yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae hyn eisoes o fudd i bobl y mae cyflyrau niwrolegol yn effeithio arnyn nhw.

Ym mis Mawrth 2016, fe berfformiodd yr Athro William Gray, o'r Uned, y weithdrefn epilepsi gyntaf erioed â chymorth robot yng Nghymru gyda'r claf Denise Casey, a gafodd diagnosis o epilepsi pan roedd hi'n 31 oed ac a fu'n dioddef o hyd at chwe ffit bob dydd am yr 20 mlynedd diwethaf. Gyda'r fraich robotig, fe gymerodd yr Athro Gray 55 munud i nodi'r parth

epileptogenig yn fanwl gywir, a'i lawdrin mewn gweithdrefn a fyddai fel rheol yn cymryd hyd at bedair awr. Nid yw Denise wedi cael unrhyw ffitiau ers ei dwy weithdrefn.

Mae cydweithio'n llwyddiannus â'r GIG hefyd wedi arwain at lansio cyfleuster Uned Ymchwil Niwrowyddoniaeth clinigol sy'n arbenigo mewn datblygu, profi a darparu therapïau newydd. Mae ymchwil allweddol yn cynnwys treial Ionis Pharmaceuticals i ddarparu cyffur tawelu genynnau ar gyfer clefyd Huntington, datblygu profion newydd ar gyfer asesu gweithrediad gwybyddol ac echddygol, ac estyn y gallu ymhlith nyrsys i ddarparu cymorth mwy dwys i gleifion.

## Cynnwys y cyhoedd

Wrth wraidd gwaith yr Uned ceir strwythur cryf o gynnwys y cyhoedd, wedi'i sefydlu trwy rwydwaith BRAIN Involve, a phartneriaeth â Chynghrair Niwrolegol Cymru y mae ei haelodau'n eistedd ar Fwrdd Gweithredol BRAIN.

Mae rhwydwaith BRAIN Involve yn darparu llais cryf i gleifion trwy ddod â phobl at ei gilydd y mae clefydau niwrolegol yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw neu wedi effeithio arnyn nhw. Mae'r fenter yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil a hyfforddiant, ond mae hefyd yn canolbwyntio ar ledaenu ymchwil i'r gymuned ehangach.

Fe ddefnyddiodd aelodau BRAIN Involve, Peter a Christine Roberts, eu dealltwriaeth bersonol o epilepsi i gyflwyno sgwrs ar bwysigrwydd

ymchwil i gyflyrau niwrolegol.

## Symud ymlaen

Mae sefydlu'r seilwaith cryf hwn wedi galluogi BRAIN i sicrhau cyllid i gydweithio â'r byd diwydiannol ac ymgymryd â'r astudiaeth gyntaf yng Nghymru i asesu effaith trawsblannu niwral mewn pobl â chlefyd Huntington. Fe fydd mewnbyn cleifion o'r cychwyn cyntaf yn helpu i gefnogi a datblygu'r astudiaeth i ddeall triniaethau posibl ar gyfer y cyflwr hwn sydd, ar hyn o bryd, yn ddiwella ac yn ddifethol. Trwy sefydlu'r gwaith hwn, fe fydd BRAIN mewn sefyllfa gref i arwain y ffordd ar gyfer astudiaethau bôn-gelloedd yn y dyfodol, ynghyd â chynhyrchu therapïau newydd a dod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer mireinio triniaethau a darparu therapïau i helpu i drin y clefydau gwanychol hyn.

“**Profiad fy mam o glefyd Parkinson oedd y rheswm pam i mi gymryd rhan yn rhwydwaith BRAIN Involve yn wreiddiol. Yng nghyfnodau olaf ei hoes, roedd fy mam yn dioddef yn arw â chlefyd Parkinson – roedd tair blynedd olaf ei bywyd yn uffern. Dyma un o'r rhesymau lu pam fod ymchwil yr Uned mor hynod o bwysig. Os oes yna unrhyw beth o gwbl y galla' i ei wneud i gefnogi neu ddatblygu triniaethau Prifysgol Caerdydd ym maes clefyd Parkinson neu epilepsi, yna mi fydda' i'n ei wneud!**

Peter Roberts, Aelod o Brain Involve

# Yn cydweithio i agor cyfleoedd

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid i greu cyfleoedd ariannu i ymchwilwyr yng Nghymru ym meysydd angen y cyhoedd a chleifion.



**Y**n 2016-17, buom ni'n gweithio gydag Ymchwil Canser y DU i adnewyddu cymorth ariannol ar gyfer y Ganolfan Meddygaeth Canser Arbrofol (ECMC) ym Mhrifysgol Caerdydd. Dyfarnwyd cyllid pellach am bum mlynedd i'r Ganolfan a fydd yn ei gweld yn derbyn mwy na £1.5m oddi wrth Ymchwil Canser y DU a Llywodraeth Cymru i barhau â'i hymchwil i ddatblygu triniaethau gwell ar gyfer cleifion cancer yn y DU.

Mae ECMC Caerdydd yn rhan o rwydwaith o 18 o ganolfannau ledled y DU lle mae triniaethau cancer addawol – gan gynnwys cyffuriau molecylau bychain, llawdriniaeth, imiwnotherapi a brechiadau – yn cael eu rhoi ar brawf yn ddiogel am y tro cyntaf mewn cleifion.

Gweledigaeth y Ganolfan yw cael ei chydabod yn rhyngwladol am ei chyfraniad at reoli a gwella cancer trwy ymchwil neilltuol a thrwy ddatblygu triniaethau newydd diogel ac effeithiol. Mae bod â chanolfan yng Nghaerdydd yn sicrhau bod pobl yng Nghymru sydd â chanser yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil arloesol sy'n rhoi ffyrdd newydd o ganfod a monitro cancer ar brawf, ac sy'n edrych ar sut y mae'n ymateb i driniaeth.

Hefyd yn 2016-17, cryfhawyd ein partneriaeth â'r Cyngor Ymchwil



Economaidd a Chymdeithasol (ESCR) a, thrwy ei Raglen Hyfforddiant Doethurol ym Mhrifysgol Caerdydd, gwnaethom ni gydariannu dwy Ysgoloriaeth Ymchwil PhD gofal cymdeithasol newydd. Fe fydd Aelwyn Williams yn cynnal ymchwil i gymunedau cefnogol i bobl â dementia, tra bydd Lucy Sheehan yn ymchwilio i'r amrywiadau rhwng awdurdodau lleol yn nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal. Daw hyn â nifer yr ysgoloriaethau ymchwil gweithredol sydd wedi'u cydariannu i bedair.

Ynghyd â phartneriaid eraill Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol y DU (UKCRC), rydyn ni'n parhau i ariannu DECIPHer - un o bum Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd UKCRC. Rydyn ni'n cydariannu ymchwil atal yng Nghanolfan Ymchwil i Losgiadau Plant y Scar Free Foundation ac, mewn partneriaeth â'r Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC), rydyn ni'n cefnogi hyfforddiant a gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd y mae Canolfan MRC yn ei wneud ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig. Rydyn ni hefyd wedi cytuno i barhau i gefnogi ymwneud Cymru ag Ymchwil Data Iechyd y DU, sef Sefydliad Farr gynt.

Rydyn ni'n un o'r arianwyr sy'n ysgogi Partneriaeth newydd Ymchwil Atal y DU (UKPRP). Menter ymchwil yw UKPRP, wedi'i chynllunio i gynhyrchu gwybodaeth newydd a ffyrdd

cynaliadwy a chost-effeithiol o wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Cynghrair ydyw o gynghorau ymchwil, elusennau ac adrannau iechyd y DU sy'n cronni adnoddau i ariannu dulliau 'system gyfan', amlddisgyblaeth o fynd i'r afael â'r heriau yn sgil nifer yr achosion o glefyd cronig.

Rydyn ni'n parhau i gymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni ariannu NIHR gydag adrannau iechyd eraill y llywodraeth. Mae'r rhain yn sicrhau bod y rhaglenni Asesu Technoleg Iechyd, Ymchwil Gwasanaeth Iechyd a Chyflenwi, Ymchwil Iechyd y Cyhoedd a Gwerthuso Effeithlonrwydd a Mekanwaith i gyd o fewn cyrraedd ymchwilwyr yng Nghymru. Yn 2016-17, fe gyflwynodd ymgeiswyr arweiniol o Gymru 29 o geisiadau i'r cynlluniau hyn, ac roedd saith o'r rhain yn llwyddiannus. Hefyd, cyflwynwyd 94 o geisiadau a oedd â chydymgeiswyr o Gymru (gan gynnwys y rheini a oedd yn cael eu harwain o Gymru), ac roedd 17 o'r rhain yn llwyddiannus. Mae ymchwilwyr blaenllaw o Gymru'n cydweithio i gynyddu nifer y ceisiadau llwyddiannus, o ansawdd uchel i raglenni ymchwil DU-eang, wedi'u hwyluso gan fentrau cydweithio a ddatblygwyd trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

# Yn ariannu ymchwil sy'n cael cryn effaith

**Yn 2016-17, gwnaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wahodd ceisiadau am Grantiau Ymchwil Iechyd, prosiectau Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd a Chymrodoriaethau Ymchwil Gofal Cymdeithasol. O ganlyniad, gwnaed deg dyfarniad newydd a oedd, gyda'i gilydd, werth £2.44m.**

**R**oedd y galwad am geisiadau am y Cymrodoriaethau Ymchwil Gofal Cymdeithasol yn cynnwys themâu Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal, pobl â dementia, a gofal a chymorth yn y cartref.

Dyma oedd y tri chais llwyddiannus:

- **Allgáu cymdeithasol a'r defnydd o wasanaethau gofal yng Nghymru: profiadau pobl â nam gwybyddol a dementia**  
- Catherine MacLeod, Prifysgol Bangor
- **Economeg gwasanaethau cymorth y mae'r trydydd sector yn eu darparu ar gyfer gofalwyr anffurfiol pobl sy'n byw â dementia yng Nghymru**  
- Carys Jones, Prifysgol Bangor
- **Siarad yn Newid: Datblygu arfer gorau wrth gydgyhyrchu canlyniadau llesiant gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru**  
- Jennifer Lyttleton-Smith, Prifysgol Caerdydd

Er bod ymgeiswyr bob amser yn gorfod dangos yr angen am eu hymchwil a'r budd tebygol i'r cyhoedd a chleifion, mae galwadau ar thema'n ffordd o sicrhau bod prosiectau a ariennir yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Mae themâu felly wedi dod yn agwedd safonol ar ein galwadau, gan roi'r dewis i ymgeiswyr ymgeisio i'r thema neu i'r alwad gyffredinol. Roedd galwadau 2016-17 y Grant Ymchwil Iechyd ac Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) yn cynnwys briff themâ a oedd yn dwyn sylw at i) anghydraddoldebau iechyd; a ii) symud gofal a gwasanaethau o ysbytai i gymunedau.

Er mwyn cynyddu effaith yr ymchwil rydyn ni'n ei hariannu, mae Panel Blaenoriaethu Cymru Gyfan (AWPP) yn adolygu pob cais am grantiau prosiectau. Mae AWPP yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, aelodau'r cyhoedd a swyddogion polisi. Ei rôl yw asesu pwysigrwydd y cwestiwn ymchwil. Dim ond ceisiadau a ystyrir yn rhai sy'n bwysig o ran y cyhoedd, arfer a pholisi sy'n symud ymlaen i'r cam adolygu gwyddonol, sy'n cynnwys adolygiad allanol, annibynnol gan gymheiriaid ac asesiad y Bwrdd Ariannu Gwyddonol.

Mae prosiectau a ariannwyd yn 2016-17 yn rhychwantu amrywiaeth o bynciau, gyda'r rheini dan arweiniad Gareth Collier a Sarah Rogers yn dod i'r amlwg trwy'r alwad ar thema.



# Prosiectau a Ariannwyd

## Cynllun Ariannu Ymchwil: Grantiau Iechyd

- *Profiad plant a'r glasoed o adrannau achosion brys a darpariaeth gwasanaeth Tîm Cyswllt Argyfwng y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ar ôl dod i'w sylw oherwydd hunan-niweidio: Adolygiad systematig ac astudiaeth ansoddol*  
- Rhiannon Evans, Prifysgol Caerdydd
- *Rôl microamgylchedd mên esgyrn cleifion mewn lewcemia myeloid aciwt atglafychol ar ôl trawsblannu bôn-gelloedd: Astudiaeth i achub y blaen ar atglafychiad cynnar*  
- Joanna Zabkiewicz, Prifysgol Caerdydd
- *Yn ddiogel yn fy nghartref fy hun? Ymchwilio i effaith gwasanaethau addasu cartrefi cymunedol ar ddefnyddio'r ysbyty ar gyfer anafiadau o godymau: Astudiaeth hydredol wedi'i rheoli, gan ddefnyddio technegau cysylltu data*  
- Sarah Rodgers, Prifysgol Abertawe

## Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd Cymru

- *Cynlluniau treialon ar gyfer Darpariaeth Therapïau Newydd ar gyfer Niwroddirwyiad (TRIDENT)*  
- Anne Rosser, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- *Dichonoldeb a derbynoldeb Llwybr Clinigol newydd i Nodi'r Rheini Sydd Ddim yn Ymateb i Ddiferion Llygaid ar gyfer Glawcoma (astudiaeth TRIAGE)*  
- James Morgan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- *Astudiaeth PLUS – Atgyfeirio o Fferyllfeydd oherwydd Symptomau Canser yr Ysgyfaint: Astudiaeth dichonoldeb i asesu rôl fferyllwyr mewn gwneud diagnosis o ganser yr ysgyfaint o'i gymharu â llwybrau presennol*  
Gareth Collier- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- *Manwl gywirdeb diagnostig offeryn rhagweld clinigol (BuRN-Tool) i nodi camdriniaeth sy'n gysylltiedig â llosgiadau mewn plant*  
- Alison Kemp, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



## Cynllun ariannu: Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) Cymru

*Astudiaeth Achos*



### **Datblygu offeryn rhagweld clinigol (BuRN-Tool) i nodi camdriniaeth sy'n gysylltiedig â llosgiadau mewn plant**

– Alison Kemp

**Y**n 2012, sefydlwyd y Ganolfan ar gyfer Ymchwil i Losgiadau Plant, a gydariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a'r Scar Free Foundation. Mae'r fenter cydweithio rhwng Prifysgolion Caerdydd, Bryste a Bath a Phrifysgol Gorllewin Lloegr yn cynnwys thema atal llosgiadau.

Mae Alison Kemp a'i tîm wedi sefydlu Templed Asesu Llosgiadau a Sgaldiadau (BaSAT), gan ddarparu asesiad safonol ar gyfer pob plentyn sydd wedi llosgi ac sy'n mynd i'r adran achosion brys. Mae BaSAT nawr yn tanategu gwaith asesu mewn nifer o adrannau achosion brys.

Yn ogystal â BaSAT, mae'r tîm wedi datblygu a dilysu Offeryn Rhagweld

Clinigol i helpu clinigwyr i nodi camdriniaeth yn y plant hyn. Mae'r BuRN-Tool (offeryn sy'n asesu'r risg bod llosgiadau'n ganlyniad i esgeulustod neu gamdriniaeth) yn darparu sgôr rifol syml o saith dangosydd camdriniaeth. Os cyrhaeddir sgôr trothwy mae'n fwy tebygol bod plentyn wedi'i gam-drin ac anogir y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i ddilyn gweithdrefnau diogelu plant lleol.

Fe fydd yr astudiaeth newydd y mae RfPPB yn ei hariannu'n gwerthuso p'un a yw'r BuRN-Tool yn helpu gweithwyr i nodi'n well pan mae angen i Ofal Cymdeithasol Plant gymryd camau diogelu ar gyfer plant, mewn pum adran achosion brys rhanbarthol.

Os yw'n effeithiol, mae'n bosibl y bydd y BuRN-Tool yn cael ei gyflwyno'n helaeth ar draws y GIG. Mae cam-drin ac esgeuluso plant yn 'Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod' (ACEs) ac mae yna gysylltiad cryf rhwng hyn a thrais ac erledigaeth yn y dyfodol, ac iechyd a chyfleoedd gwael gydol oes. Fodd bynnag, mae nodi ACEs a gwneud rhywbeth yn eu cylch yn gynnar yn gallu bod o fudd.

**“ Bob blwyddyn mae 40-50,000 o blant yn mynd i'r ysbty i gael llosgiadau wedi'u trin a'u hasesu. Trwy gyfres o brosiectau sydd wedi'u hariannu, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ein galluogi i ddeall epidemioleg llosgiadau plant ac i gydnabod bod un ym mhob deg o achosion yn codi o esgeulustod neu gamdriniaeth gorfforol. Mae'n gallu bod yn gryn her i staff adrannau achosion brys prysur nodi'r plant hyn, ond mae'n rhaid eu nodi fel bod plant a'u teuluoedd yn gallu derbyn y cymorth iawn oddi wrth weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i atal anafiadau ac esgeulustod yn y dyfodol.**

Alison Kemp

**Yn 2016-17, cwblhawyd 21 o brosiectau a ariannwyd yn uniongyrchol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae gofyn i ddeiliaid grantiau olrhain a chofnodi allbynnau, gan gynnwys effaith eu prosiectau, am bum mlynedd ar ôl dyfarnu'r grant. Mae canlyniadau un o'r astudiaethau a gwblhawyd yn 2016-17 yn dangos yr effaith y bydd yr astudiaeth yn ei chael ar gleifion a gwasanaethau'r GIG.**

*Astudiaeth Achos*



## **Datblygu a Gwerthuso Algorithmau Uwch ar gyfer Cynllunio Triniaeth Radiotherapi Arddwysedd Modyledig Cwbl Awtomataidd**

– Philip Wheeler

**M**ae hanner yr holl gleifion sy'n cael eu gwella o ganser yn derbyn radiotherapi radical fel rhan o'u triniaeth. Mae Triniaeth Radiotherapi Arddwysedd Modyledig (IMRT) yn ffurf uwch ar radiotherapi sy'n achosi llai o sgil-ffeithiau aciwt a thymor hir ac sy'n arwain at well ansawdd bywyd. Er bod IMRT yn ddiogel ac yn effeithiol, mae hefyd yn fwy cymhleth ac mae'n galw am adnoddau ychwanegol o'i chymharu â thriniaeth safonol. O'r herwydd, nid yw ar gael i bob claf y byddai o fudd iddym nhw.

**“ Mae cyllid oddi wrth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ochr yn ochr â cymorth cryf oddi wrth Ymddiriedolaeth GIG Felindre, wedi grymuso staff clinigol i ddatblygu a gwerthuso datrysiadau arloesol a fydd yn arwain at welliannau hanfodol i effeithlonrwydd gwasanaethau radiotherapi.**

Philip Wheeler

Mae triniaethau IMRT yn galw am gynllunio manwl gywir ar sganiau CT cleifion cyn eu cyflawni. Mae'r broses hon yn golygu cost ychwanegol sylweddol ac mae hyn yn rhwystr mawr rhag rhoi IMRT ar waith yn fwy helaeth. Nod y prosiect a ariannwyd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru oedd datblygu a gwerthuso algorithmau cyfrifiadurol arloesol, o fewn y system

cynllunio triniaethau RayStation, sy'n awtomeiddio'r broses gynllunio. Y ddamcaniaeth oedd y byddai cynllunio awtomataidd yn arwain at welliannau sylweddol yn effeithlonrwydd gwasanaethau heb gyfaddawdu ansawdd y driniaeth.

Rhoddyd hyn ar brawf trwy astudiaeth a oedd yn cymharu algorithmau awtomataidd â thechnegau clinigol presennol ar gyfer safleoedd canser y prostad a'r pen a'r gwddf. Cynlluniwyd yr astudiaeth i gymharu: i) gofynion o ran staff ac adnoddau cyfrifiadurol fesul achos o gynhyrchu cynllun triniaeth; a ii) ansawdd y driniaeth trwy adolygiad gan oncolegwyr clinigol.

Roedd y canlyniadau'n ddangos arbedion effeithlonrwydd yn sgil cynllunio awtomataidd, sef 90% yn achos staff a 79% yn achos gofynion adnoddau cyfrifiadurol. Hefyd, ar ôl eu hadolygu, gwelwyd bod 100% o gynlluniau awtomataidd o ansawdd clinigol derbyniol, gyda 92% yn gyfartal neu'n well na'r technegau anawtomataidd presennol.

Y casgliad oedd bod cynllunio awtomataidd yn arwain at gynlluniau triniaeth o ansawdd uchel mewn llai o amser na thechnegau anawtomataidd confensiynol. Er mai un rhan yn unig o lwybr radiotherapi cymhleth yw cynhyrchu cynllun, fe fydd rhoi proses cynllunio awtomataidd ar waith yn

gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a fydd, yn ei dro, yn golygu y daw IMRT o fewn cyrraedd gwell i gleifion.

**“ Darn rhagorol o ymchwil a fydd o fudd anferthol i gleifion ac a fydd yn arbed arian ac amser staff i GIG Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw IMRT ar gael i bob claf sydd ei angen. Nawr, fe fydd y driniaeth bwysig hon o fudd i fwy o gleifion.**

Sue Campbell,  
Cynrychiolydd y cyhoedd a chleifion

Mae canlyniadau'r prosiect ymchwil arloesol hwn yn dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â'r modd o gynllunio triniaeth radiotherapi'n glinigol yn y dyfodol, ar lefel leol a hefyd ar lefel genedlaethol. Nod y safle lle gwesteiwyd y prosiect, sef Canolfan Canser Felindre sy'n darparu gwasanaethau radiotherapi i 50% o boblogaeth Cymru, yw cyflwyno proses cynllunio awtomataidd erbyn mis Hydref 2018. Mae'r Ganolfan hefyd wrthi'n cydweithio â chanolfannau radiotherapi yng Nghymru â'r nod o ariannu rhaglen i gyflawni hyn ar raddfa fawr. Ar lefel y DU, mae astudiaeth aml-ganolfan yn cael ei datblygu a fydd, gobeithio, yn arwain at roi proses cynllunio awtomataidd ar waith yn ehangach.





“

Mae'r cleifion wedi croesawu bod yn rhan o dreialon ymchwil. Maen nhw'n mwynhau'r cyfle i allu newid arferion meddygol er gwell.

”

Dr Neela Chatakundu, Meddygfa'r Gororau



# Yn cefnogi ac yn cyflenwi ymchwil

**Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cynnwys gwasanaeth cefnogi a chyflenwi a ddarperir trwy ganolfan gymorth genedlaethol a gwasanaethau Ymchwil a Datblygu (Y&D) ym mhob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn meithrin capasiti a gallu lleol i gefnogi ymchwil o ansawdd uchel sydd o fudd i gleifion.**

**M**ae pob sefydliad GIG yng Nghymru'n ymhel ag ymchwil. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y cleifion a recriwtiwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, sef cynnydd o 155% ar 2015-16, ac astudiaeth PARAFEDDYG2 (Asesiad o rôl adrenalin cyn mynd â chlaf i'r ysbyty: Mesur effeithiolrwydd rhai cyffuriau ar gyfer ataliad ar y galon) gan recriwtio 687 o gleifion.

Yn ogystal ag astudiaeth y mae academyddion neu'r GIG yn eu harwain, rydyn ni hefyd yn ymgymryd ag astudiaethau ymchwil masnachol. Mae'r gwaith o gydlynu'r mathau hyn o astudiaethau wedi'i wella i ddarparu gwasanaeth gwell i'r byd diwydiannol a sicrhau bod opsiynau triniaethau sy'n dod i'r amlwg ar gael i gleifion.

**“ Mae gweithio ochr yn ochr â'r tîm diwydiannol wedi bod o fudd o ran dewis safleoedd ac wedi'n helpu ni i ddatrys materion wrth iddyn nhw godi ar y safleoedd.**

.....  
**Sarah Durston, Uwch Reolwr, Gweithrediadau Datblygu, Amgen**

Nod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yw sefydlu astudiaethau mor gyflym ac effeithlon â phosibl, ac ar yr un pryd sicrhau bod ein hymchwil yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol

a rheoleiddiol angenrheidiol, a bod sefydliadau'r GIG yn meddu ar y capasiti a'r gallu i'w chyflawni'n llwyddiannus. Lanswyd fframwaith strategol newydd ar gyfer cefnogi a chyflenwi ym mis Mawrth 2017, â'r nod o wireddu 'Gwasanaeth Di-dor Cymru'n Un' i gefnogi a chyflenwi ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel. Mae rhaglen waith wedi'i datblygu i wella'r amgylchedd ymchwil yng Nghymru a chefnogi ymchwilwyr a'r byd diwydiannol. Mae hon yn cyd-fynd â rhaglen DU-eang o bwys a fydd yn gwneud y modd o sefydlu a chymeradwyo ymchwil yn fwy cyson ar draws y bedair gwlad. Ochr yn ochr â hyn, mae system rheoli portffolios lleol yn cael ei rhoi ar waith ledled Cymru i gefnogi rheoli gwybodaeth yn effeithlon ar draws y gwasanaeth.

Gwnaethom ni ymgymryd ag ymchwil ym mhob un o 30 maes arbenigedd clinigol y DU, a phenodi arweinwyr arbenigeddau newydd i ddarparu arweinyddiaeth glinigol ar gyfer ymchwil ym mhob maes pwnc, i gynyddu ymchwil ledled Cymru ac i hybu cysylltiadau ledled y DU.

Fe barhawyd i gydweithio ag Ymchwil Cancer y DU (CRUK) i gydariannu rhwydwaith o nyrsys ymchwil cancer, a hynny'n llwyddiannus iawn. Mae'r staff hyn bellach yn rhan annatod o'r gwasanaeth cefnogi a chyflenwi. Maen nhw'n chwarae rhan allweddol mewn amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu a chynyddu ymwybyddiaeth, fel y Ras am Fywyd, cefnogi stonidn CRUK yn yr Eisteddfod Genedlaethol a mynychu diwrnodau agored a digwyddiadau cyhoeddus.

Mae'n bwysig cynyddu cyfleoedd i gleifion gymryd rhan mewn ymchwil, yn enwedig mewn ymchwil gofal sylfaenol, a chynhwyswyd 24 o astudiaethau a oedd yn mynd rhagddyn nhw mewn gofal sylfaenol yn ein portffolio ymchwil. Mae nifer y


practisau cyswllt a'r practisau sy'n cael eu hariannu ledled Cymru sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Cymell Ymchwil Gofal Sylfaenol (PiCRIS), nawr yn ei bumed flwyddyn, yn parhau i gynyddu. Nod PiCRIS yw galluogi practisau i wneud gweithgarwch ymchwil yn rhan annatod o'u gwaith o ddydd i ddydd, ac i'r gweithgarwch hwnnw ddod yn hunan-gynhaliol. Fel rhan o'r cynllun, mae staff cefnogi a chyflenwi ymchwil lleol, rhaglen hyfforddi ganolog, mentoriaid PiCRIS rhanbarthol a chymorth cymheiriaid o bractisau profiadol ar gael i bractisau meddygon teulu.

**“ Mae PiCRIS wedi darparu'r cyllid, yr arbenigedd a'r cymhelliant i ddatblygu'r practis i chwarae rhan fwy mewn ymchwil yn y dyfodol.**

.....  
**Dr Sue Fish, Meddygfa'r Borth**

Rydyn ni hefyd yn awyddus i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gymryd rhan mewn ymchwil gofal cymdeithasol. Er bod ymchwil gofal cymdeithasol wedi'i chefnogi'n anffurfiol ers peth amser, lanswyd prosiect newydd i'w hintegreiddio'n llawn yn y gwasanaeth cymorth a chyflenwi.

# Cefnogi a Chyflenwi 2016 - 17



**371**

o astudiaethau ymchwil o ansawdd uchel  
sydd ar agor ac yn recriwtio yn y GIG



**15,728**

o gyfranogwyr wedi'u recriwtio i  
astudiaethau ymchwil o ansawdd uchel  
yn y GIG (cynnydd o 20% ar linell  
sylfaen 2014/15)



**105**

o astudiaethau wedi'u noddi'n fasnachol  
ar agor ac yn recriwtio yn y GIG



**1,289**

o gyfranogwyr wedi'u recriwtio i  
astudiaethau wedi'u noddi'n fasnachol  
yn y GIG



**26%**

o astudiaethau ar agor mewn mwy nag  
un safle yng Nghymru



**670**

o ganiatadau ymchwil GIG wedi'u rhoi ar  
gyfer astudiaethau ymchwil



**84%**

o astudiaethau o ansawdd uchel a  
dderbyniodd ganiatâd ymchwil GIG o  
fewn 40 diwrnod calendr





**93%**

o astudiaethau masnachol a dderbyniodd ganiatâd ymchwil GIG o fewn 40 diwrnod calendr



**287**

o geisiadau i bwyllgorau moeseg ymchwil y GIG, 44 ohonyn nhw a adolygwyd yn gyfatebol



**96%**

o geisiadau moeseg ymchwil llawn newydd y GIG a dderbyniodd benderfyniad terfynol o fewn 40 diwrnod calendr



**97**

o gontractau ymchwil a adolygwyd, 59 anfasnachol a 38 masnachol\*



**153**

o geisiadau dichonoldeb masnachol a anfonwyd at ymchwilwyr posibl\*



**116**

o bractisau meddygon teulu'n cymryd rhan yng Nghynllun Cymell Ymchwil Gofal Sylfaenol (PICRIS)



**1,467**

o hyfforddeion wedi'u hyfforddi trwy raglen hyfforddi Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru



**70,915**

o sesiynau gwefan ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru



**125**

o adroddiadau gwybodaeth a ddarparwyd i randdeiliaid\*

\*O wasanaeth y ganolfan gymorth ganolog

## Astudiaeth Achos



### Ymchwil sylfaenol â ffigyrau recriwtio uchel

Fe lwyddodd astudiaeth Ychwanegiadau Bath i Drin Ecsema Plant (BATHE) i ragori ar darged cyffredinol gwreiddiol yr astudiaeth o 423 o gleifion. Fe helpodd practisau meddygon teulu yng Nghymru i gyfrannu 145 o gleifion at y cyfanswm terfynol o 483.

Astudiaeth y mae Prifysgol Southampton yn ei noddi yw BATHE, sydd â thair canolfan ymchwil (Southampton, Bryste a Chaerdydd) yn cydlynw cynnwys practisau meddygon teulu ledled y DU. Nod yr astudiaeth oedd darganfod a yw plant ag ecsema'n derbyn yr opsiwn triniaeth gorau. Bu hefyd yn edrych i weld a yw'n bosibl i'r GIG arbed arian trwy gwtogi ar bresgripsiynau diangen ar gyfer elïau bath, os oedd y darganfyddiadau'n dangos mai prin oedd eu heffaith ar driniaeth ecsema.

Bu canolfan Caerdydd yn goruchwyllo ymwneud y 39 o bractisau meddygon teulu ledled Cymru. Fe helpodd staff y meddygfeydd i nodi a chysylltu â chleifion cymwys, gyda chymorth staff cyflenwi ymchwil a gynhaliodd glinigau BATHE ar safleoedd meddygon teulu i gynorthwyo â'r broses cydsynio deallus, recriwtio a chefnogi cleifion wrth iddyn nhw gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Roedd angen cydlynw'r cymorth ychwanegol hwn oddi wrth staff cyflenwi ymchwil, ac roedd angen iddo fod yn hyblyg i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld o fewn 24 awr ar ôl i'w meddyg teulu eu hatgyfeirio, ac i'w gwneud yn bosibl ymweld â'r cartref o bryd i'w gilydd.

## Astudiaeth Achos



### Effaith Arweinwyr Arbenigeddau

Roedd yna 36 o astudiaethau ymchwil cardiofasgwlaidd ar waith yn 2016-17, ac mae'r arweinydd arbenigedd cardiofasgwlaidd, Dr Zaheer Yousef, wedi bod yn canolbwyntio ar ffyrdd i ddatblygu'r gweithgarwch hwn ledled Cymru.

Mae Grŵp Buddiant Ymchwil Gardiofasgwlaidd wedi'i sefydlu i ddod â chlinigwyr ledled Cymru ynghyd. Nod y cyfarfod cyntaf oedd annog ymchwil gydweithredol newydd rhwng clinigwyr a gwyddonwyr sylfaenol, a rhwng unedau ymchwil amrywiol. Fe fynychodd 20 o ymchwilwyr y cyfarfod, ac roedden nhw o'r farn y byddai'r cyfarfod yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydden nhw'n cyflwyno cais am grant.

Hefyd, mae proses newydd yn cael ei datblygu i dargedu galwadau am dreialon newydd i ganolfannau/clinigwyr unigol, gyda chymorth ar gael i gyflawni'r astudiaethau hynny.

Mae amrywiaeth o weithgareddau wedi darparu plattform ardderchog ar gyfer cyfathrebu parhaus a datblygu pellach. Fe fydd hyn yn helpu i gynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu recriwtio ac yn galluogi trafod heriau ac atebion.



## Astudiaeth Achos

### Effaith ymchwil fasnachol

Fe gwblhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg astudiaeth i gymharu canlyniadau triniaeth safonol gyda neu heb driniaeth imiwnotherapi mewn cleifion â myeloma llysof (math o ganser y gwaed) ailwael neu ddiymateb.

Nod yr astudiaeth, a noddwyd gan Celgene, sef cwmni biotechnoleg, ac a gydlynwyd gan wasanaeth dichonoldeb y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR), oedd darganfod a fyddai ychwanegu imiwnotherapi o fudd i gleifion, trwy fod yn fwy effeithiol, ymestyn y goroesi a gwella ansawdd bywyd. Fe barhaodd y cleifion yn yr astudiaeth i dderbyn triniaeth cyn belled ag roedd cyffuriau'r astudiaeth o fudd iddyn nhw a chyn belled nad oedden nhw'n dioddef sgil-effeithiau difrifol.

Roedd Ysbyty Singleton yn un o wyth safle yn y DU, a llwyddodd i recriwtio chwe chlaf i gyd. Fe barhaodd tri o gleifion i dderbyn triniaeth o ganlyniad i'r astudiaeth ac maen nhw wedi derbyn opsiynau triniaeth gwell o ganlyniad.



## Astudiaeth Achos

### Cydweithio i gefnogi cyflenwi ymchwil gofal cymdeithasol

Astudiaeth gofal cymdeithasol yw Hyder mewn Gwerthuso Gofal, sy'n cael ei rhedeg o Uned Treialon De-ddwyrain Cymru. Pwrpas yr astudiaeth yw darganfod a yw mynychu rhaglen 12 wythnos o'r enw 'maethu newidiadau', sy'n cael ei chynnig i ofalwyr maeth neu ofalwyr sy'n berthnasau, yn gwella gofal ar ôl 12 mis o'i gymharu â'r cymorth arferol. Cynigiwyd y rhaglen hyfforddi hon i ofalwyr maeth ym mhob asiantaeth darparwyr gofal maeth ledled Cymru. Cydlynwyd cymorth oddi wrth nyrsys ymchwil ledled y de-ddwyrain.

Darparodd tîm yr astudiaeth restr o gyfranogwyr posibl roedd eu gweithwyr cymdeithasol wedi mynd ar eu gofyn, ac a oedd wedi mynegi diddordeb yn yr astudiaeth, i dimau cyflenwi ymchwil lleol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Yna, fe gysylltodd y staff cyflenwi â'r gofalwyr maeth ar y rhestr i ddarparu gwybodaeth am yr astudiaeth, ateb unrhyw gwestiynau a chymryd cydsyniad. Pan gytunodd cyfranogwyr i gymryd rhan, fe gwblhaodd y staff cyflenwi asesiad sylfaenol naill ai dros y ffôn neu mewn ymweliad â'r cartref. Yn ystod 2016-17, fe recriwtiodd timau cyflenwi ymchwil lleol 224 o gyfranogwyr o ledled ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru i'r astudiaeth.



# Cynnwys y cyhoedd

Proses lle mae aelodau'r cyhoedd yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr i gynllunio, rheoli a chynnal ymchwil yw cynnwys y cyhoedd. Nod pob un o'n grwpiau yw sicrhau bod cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn y maen nhw'n ei wneud a bod hyn i'w weld ym mhob elfen ohono.


Mae'r tîm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn gweithio o fewn y ganolfan gymorth genedlaethol. Mae'n cefnogi gwahanol fodolau o gynnwys y cyhoedd ar draws Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yn ogystal â chydlynu gweithgareddau cynnwys y cyhoedd. Maen nhw'n rhoi cyngor i ymchwilwyr ar gynnwys y cyhoedd mewn astudiaethau i wneud yr ymchwil yn fwy perthnasol, dibynadwy a thebygol o newid arfer. Mae gwasanaeth sy'n cyfeirio ymchwilwyr at hyfforddiant a chyfarwyddyd perthnasol hefyd yn cael ei ddarparu, yn ogystal â chymorth ariannol i gynnwys y cyhoedd mewn gwaith datblygu ymchwil.

Mae'r tîm hefyd yn cefnogi'r Rhwydwaith Cynnwys Pobl, sy'n dwyn aelodau o'r cyhoedd ynghyd o ledled Cymru sydd â diddordeb mewn gweithio gydag ymchwilwyr i wella triniaethau a gofal. Mae cymorth yn cynnwys hysbysebu cyfleoedd i'w cynnwys mewn ymchwil a darparu hyfforddiant, bwletin wythnosol, a chyflwyniad ar-lein i aelodau newydd. Ym mis Mawrth 2017, roedd digwyddiad blynyddol y Rhwydwaith yn cynnwys cyfleoedd rhyngweithiol i ymchwilwyr bledio achos eu syniadau i aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau arny nhw.

“ Rydyn ni'n hynod falch o'n model Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yng Nghanolfan Ymchwil Canser Cymru. Gyda help ein partneriaid ymchwil ar wyth thema Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, a thimau ymchwil y Ganolfan, rydyn ni wedi rhoi fframwaith Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd trwyadl a chefnogol ar waith. Mae ein cynrychiolydd y cyhoedd, Barbara Harrington, wrthi'n gweithio ar ddatblygu offeryn mesur effaith ar hyn o bryd, ac mae'r enghraifft hon, o'r thema gymunedol, yn un yn unig o'r astudiaethau achos lu rydyn ni'n eu datblygu ar draws pob thema.

Dr Annmarie Nelson, Cyfarwyddwr Gwyddonol, Canolfan Ymchwil Gofal Lliniarol Marie Curie

Ar ddiwedd mis Mawrth 2017  
Rhwydwaith Cynnwys Pobl



Yn 2016-17



o gyfleoedd newydd a gynigiwyd i'r cyhoedd



...ac fe recriwtiwyd i fwy na thri chwarter (76%) o gyfleoedd.



## Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd

Mae Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd yn gyfrifol am oruchwylio gwaith cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ystod 2016-17, fe ddatblygodd y Bwrdd:

- **Set o saith egwyddor graidd i arwain gweithgarwch cynnwys y cyhoedd effeithiol.**
- **Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Caiff y Safonau, sy'n gosod y meincnod ar gyfer arfer gorau ym maes Cynnwys y Cyhoedd ledled y DU, eu lansio'n swyddogol ar ddiwedd 2017.**
- **Gwobr Cyflawniad Cynnwys y Cyhoedd i gydnabod a dathlu gwaith cynnwys y cyhoedd rhagorol ledled Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.**
- **Partneriaeth agos â Doeth Am Iechyd Cymru (*gwelwch dudalen 34*), gan gynorthwyo'r tîm i sicrhau bod y nod o fod 'gyda'r cyhoedd, er budd y cyhoedd' yn cael ei gyflawni'n llawn.**

Yn 2017, fe groesawodd y Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd Gadeirydd newydd, sef Barbara Harrington.

“Dwi wrth fy modd fy mod i'n gweithio gyda grŵp mor selog a phrofiadol o aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Rydyn ni wedi ymrwmo i wella ansawdd, perthnasedd ac effaith ymchwil trwy waith cynnwys y cyhoedd effeithiol er budd pobl Cymru.

.....  
**Barbara Harrington,**  
Cadeirydd Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd

## Effaith cynnwys y cyhoedd effeithiol

Roedd Canolfan Ymchwil Gofal Lliniarol Marie Curie'n gweithio ar astudiaeth i gefnogi galarwyr yn sgil salwch datblygedig. Ar ôl profiad personol o brofedigaeth, gwnaeth Kathy Seddon, sef aelod o'r cyhoedd, wirfoddoli i gymryd rhan. Fe ymunodd â chyfranogwr cyhoeddus arall, Jim Fitzgibbon, a oedd eisoes wedi cyfrannu at waith a oedd wedi llwyddo i sicrhau cyllid. Cyn cyfarfod cyntaf yr astudiaeth, gwnaeth Kathy gyfarfod â'r ymchwilydd, Emily Harrop, a ddarparodd gefndir yr astudiaeth iddi. Fe esboniodd Emily y rôl y byddai Kathy'n ei chymryd i gynrychioli buddion gofalwyr sy'n galaru a chynrychioli safbwynt y cyhoedd. Gwnaethon nhw siarad am y gwahaniaeth y byddai ei chynnwys hi'n ei wneud, trwy wella profiadau'r rheini a oedd yn cymryd rhan yn yr astudiaeth, cynyddu nifer y rhai a fydda'n cael eu recriwtio i'r astudiaeth, sicrhau mai'r deilliannau a oedd o wir bwys i gleifion a gofalwyr oedd deilliannau'r astudiaeth, a gwneud yn siŵr bod canlyniadau'r astudiaeth yn cael eu rhannu'n eang â'r cyhoedd.

Mae Kathy a Jim yn cyfrannu'n rheolaidd at gyfarfodydd grŵp rheoli'r astudiaeth, gan gynnwys:

- **Gwella deunyddiau cyfathrebu ar gyfer cynulleidfaoedd cyhoeddus**
- **Nodi a recriwtio gofalwyr sy'n galaru i gymryd rhan yn yr astudiaeth**
- **Sicrhau bod y cyhoedd sy'n mynychu diwrnod consensws yn deall pwrpas y diwrnod yn llawn**
- **Cefnogi'r cyhoedd i wneud cyfraniadau effeithiol**

Newidiwyd arolwg astudiaeth yn sylweddol yn sgil adborth oddi wrth Kathy, i ddefnyddio iaith a oedd yn adlewyrchu'r profiad emosiynol o brofedigaeth yn well. Gan ddefnyddio'u gwybodaeth a'u rhwydweithiau, mae Kathy a Jim yn edrych ymlaen at sicrhau bod darganfyddiadau'r astudiaeth yn cael eu rhannu'n eang.

“Roedd y diwrnod consensws yn rhywbeth arbennig iawn i mi. Roeddwn i'n teimlo y gallai fy nghyfeirio'n iawn at y ddadl a rhoi rhywfaint o gydbwysedd.

.....  
**Jim Fitzgibbon,**  
Aelod o Rwydwaith Cynnwys Pobl

# Doeth Am Iechyd Cymru

## Mae Doeth Am Iechyd Cymru'n casglu data ar iechyd a ffordd o fyw nad ydyn nhw ar gael o setiau data iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael fel mater o drefn.

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion cymdeithasol-ddemograffig, cyfansoddiad teuluol, cyfrifoldebau gofalu, y rheini sy'n ysmegu sigarêts, yr alcohol sy'n cael ei yfed, gweithgarwch corfforol, diet, iechyd meddwl, ac iechyd merched beichiog.

Mae astudiaeth Doeth Am Iechyd Cymru hefyd wedi'i defnyddio i gefnogi gwaith casglu data ar gyfer astudiaethau ymchwil at ofynion penodol. Mae ymchwilwyr o Ganolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (PRIME) yn defnyddio Doeth Am Iechyd Cymru i gasglu data ar ymddygiad ceisio iechyd sy'n gysylltiedig â pheswch ac annwyd, i ddarparu sail ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae Doeth Am Iechyd Cymru hefyd wedi cefnogi gwaith recriwtio i dair astudiaeth arall yng Nghymru, yn cynnwys astudiaeth Canolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl. Caiff data oddi wrth y 10,000 cyntaf o gyfranogwyr Doeth Am Iechyd Cymru eu dadansoddi yn yr hydref, a'r bwriad yw bwydo darganfyddiadau'r ymchwil yn ôl i'r cyfranogwyr.

Mae strategaeth recriwtio â ffocws y GIG ar waith, yn defnyddio'r Gwasanaeth Cefnogi a Chyflenwi i fynd ati i hybu a recriwtio i Doeth Am Iechyd Cymru, ochr yn ochr â gweithgareddau recriwtio eraill. Fe ysgrifennodd Andrew Goodall, prif weithredwr GIG Cymru, at brif weithredwyr GIG ym mis Mawrth 2017, i annog pob sefydliad i gefnogi gwaith recriwtio. Mae Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru wedi dangos ei fod yn cefnogi'r fenter, ac mae pob practis meddygon teulu yng Nghymru wedi derbyn pecyn recriwtio Doeth Am Iechyd Cymru. Mae chwe swydd benodol i recriwtio i Doeth Am Iechyd Cymru wedi'u hysbysebu a byddan nhw'n arwain gwaith recriwtio wyneb yn wyneb i Doeth Am Iechyd Cymru, yn y GIG ac mewn amgylcheddau eraill.

Mae rhwydwaith hyrwyddwyr Doeth Am Iechyd Cymru wedi bod yn brysur yn hybu'r prosiect, yn helpu i recriwtio mewn nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys Gŵyl Bwyd a Diod Caerdydd a Sioe Frenhinol Cymru. Mae'r modiwlau mamolaeth wedi'u lansio'n ddiweddar, ac mae cynlluniau ar y gweill i dargedu'r cyhoedd a gweithwyr y sector preifat yn ystod y flwyddyn nesaf.



Doeth am Iechyd  
Cymru  
HealthWise  
Wales



“

Mae'n hanfodol ein bod ni'n chwarae rhan weithredol yn helpu i ddeall anghenion iechyd cymhleth y wlad. Mae ymchwil iechyd yn hollbwysig i siapio dyfodol gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n bwysicach nag erioed bod y cyhoedd yn chwarae rhan yn y broses hon. Mae Doeth Am Iechyd Cymru'n rhoi cyfle i'r cyhoedd wneud hynny.

”

Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru

Research is vital to develop better treatments and manage diseases.

- Wales faces many health challenges.
- People are living longer, but our health care system is limited by a health problem and care in two people over 65 being treated for two or more conditions.
- There are many studies taking place to address these issues, but researchers find it difficult to recruit enough people.

What does it involve?

- Register online or by phone to say that you are willing to take part in research. This takes no more than 10 minutes.
- Complete short questionnaires every 6 months so that we get an ongoing picture of your medical and health.
- We'll let you know when there are new studies to join, you choose whether to take part or not.
- Help the NHS in Wales plan for the future by supporting HealthWise Wales.

Register or find out more

On the web: [www.healthwise.wales.gov.uk](http://www.healthwise.wales.gov.uk)  
By phone: 0800 9 122 122 or 0300 900000

By email: [healthwise@nhs.uk](mailto:healthwise@nhs.uk)

Doeth am Iechyd  
Cymru  
HealthWise  
Wales



**Your information  
will protect the  
health of the nation**

If you are 16 or over and living  
in Wales, we need your help...



# Yn symud gofal cymdeithasol ymlaen

**Mae Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol newydd Cymru'n canolbwyntio ar feysydd hanfodol fel cynyddu a gwella ymchwil gofal cymdeithasol a chefnogi'r defnydd o dystiolaeth mewn polisi ac arfer gofal cymdeithasol. Dan gyfarwyddiaeth yr Athro Fiona Verity, mae'r Ysgol yn darparu cymorth ac arweinyddiaeth ym maes Y&D gofal cymdeithasol ledled Cymru, gyda staff ym Mhrifysgolion Abertawe, Caerdydd a Bangor.**

Fe fydd yr Ysgol yn darparu amrywiaeth o grantiau meithrin gallu yn 2017. Fe fydd y rhain yn cynnwys grantiau bach, yn ogystal â doethuriaethau PhD academiaidd, a fydd yn ategol at yr Ysgoloriaethau Ymchwil Gofal Cymdeithasol Doethurol y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac ESRC yn eu cydariannu ac a ddarperir trwy Raglen Hyfforddiant Doethurol ESRC ym Mhrifysgol Caerdydd.

Fe fydd yr Ysgol yn parhau i ehangu ei rhaglen flaenllaw, 'Datblygu Arfer Cyfoethog ei Dystiolaeth' (DEEP), ac fe fydd hefyd yn gwsteio ExChange, sef rhaglen Cymru-eang o seminarau i hybu arfer seiliedig ar dystiolaeth mewn gwaith cymdeithasol.


Mae trefniadau llywodraethu ar y cyd wedi'u datblygu â sefydliad Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau bod cyllid Y&D gofal cymdeithasol yn cael ei gyfeirio at feysydd sydd â blaenoriaeth genedlaethol, a'i fod hefyd yn cynnal y safonau ymchwil academiaidd uchaf.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Ysgol, ynghyd ag amrywiaeth o randdeiliaid, wedi datblygu Strategaeth Y&D Gofal Cymdeithasol ddrافت i Gymru. Mae'n nodi meysydd datblygu hanfodol mewn Y&D gofal cymdeithasol ac yn disgrifio gweledigaeth i Gymru gael ei chydabod am ymchwil gofal cymdeithasol ragorol sy'n cefnogi pobl Cymru trwy ddarparu sail ar gyfer polisi ac arfer gofal cymdeithasol, a'u gwella.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi ymchwil gofal cymdeithasol hynod amrywiol ledled Cymru trwy ein canolfannau a'n hunedau. Yng Nghanolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (PRIME) ym Mhrifysgol De Cymru, mae astudiaeth ddiweddar wedi taflu goleuni newydd ar ein dealltwriaeth o ddyinion yn dioddef o gamdriniaeth domestig.

Mae Uned Treialon De-ddwyrain Cymru'n cynnal nifer o dreialon ym maes gofal cymdeithasol, a bydd y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR), ynghyd ag Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru, yn disodli Age Cymru fel gwsteiwr newydd 'Fy Mywyd mewn Cartref Cymru', sef menter ledled y DU sy'n hybu ansawdd bywyd ac sy'n arwain at newid positif mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn.

Mae ymchwil gofal cymdeithasol a chysylltiadau ag arfer yn cael eu cynyddu a'u gwella o dipyn i beth ledled Cymru, gyda'n cymorth ni.



Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru  
The Wales School for Social Care Research



## **Astudiaeth Achos Datblygu Arfer Cyfoethog ei Dystiolaeth**

Fe ariannodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Sefydliad Joseph Rowntree brosiect DEEP, a oedd wedi nodi pum thema yr oedd angen rhoi sylw iddyn nhw ar gyfer ymchwil er mwyn cael effaith ar bolisi ac arfer:

- **Gwerthfawrogi a grymuso pobl**
- **Gwerthfawrogi a defnyddio mathau amrywiol o wybodaeth (tystiolaeth sefydliad a pholisi, ymchwil, gwybodaeth ymarferwyr, a llais y defnyddiwr gwasanaeth/gofalwr)**
- **Cipio a chyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd ystyrlon ac ysgogol, e.e. adrodd storïau**
- **Siarad a meddwl yn dda gyda'n gilydd i gefnogi dysgu ar y cyd**
- **Mynd i'r afael â phethau sy'n rhwystrol, e.e. polisi amhriodol, cefnu ar risgiau a biwrocratiaeth ormodol.**

Roedd prosiect DEEP yn gweithio yn safle un practis (Sir Gaerfyrddin) i edrych i weld sut orau i gefnogi pobl â dementia o safbwynt hawliau dynol. Ar y naill law, cafwyd newidiadau lleol i hyfforddiant ac arfer y gweithlu o ganlyniad i'r prosiect, ac ar y llaw arall fe ddarparodd DEEP sail hefyd ar gyfer cynhyrchu 'Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru', a gomisiynwyd gan Gyngor Gofal Cymru a GIG Cymru ac a lansiwyd ym mis Tachwedd 2016 gan Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

Cynhwyswyd pum thema allweddol DEEP yn y fframwaith, ynghyd â darganfyddiadau ymchwil ynglŷn â sut orau i weithio gyda phobl â dementia, a'u cefnogi.

Mae'r fframwaith yn cael ei ddefnyddio ar draws GIG Cymru ac awdurdodau lleol ar hyn o bryd, i siapiau'u gwasanaeth dementia a datblygiadau'r gweithlu.





# Yn edrych ymlaen

“

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi ein gweld ni'n cymryd rhai camau pwysig tuag at sefydlu ein hunain fel model rhagoriaeth yng Nghymru. Mae hi nawr yn bwysig cynnal y momentwm positif a gynhyrchwyd ac adeiladu ar gyflawniadau hyd yma. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru a brwdfrydedd ac ymrwymiad ei gymuned, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn sefyllfa dda i gyflawni ei wir botensial a hwyluso cyflenwi gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel, seiliedig ar dystiolaeth a mentrau eraill sy'n gwella iechyd, llesiant a ffyniant y bobl yng Nghymru.

”

Yr Athro Jon Bisson, Cyfarwyddwr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru







Delwedd wedi'i chymryd o:

'Beth ydy ymchwil?', fideo ddiweddaraf Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Ewch i sianel YouTube Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gael gwybod mwy.

# Ymchwil Heddiw; Gofal Yfory.

**Rhif ffôn:** +44 (0) 2920 230 457

**E-bost:** [healthandcareresearch@wales.nhs.uk](mailto:healthandcareresearch@wales.nhs.uk)

**Gwefan:** [www.ymchwilielchydagofal.llyw.cymru](http://www.ymchwilielchydagofal.llyw.cymru)

**Twitter:** @YmchwilCymru

